RPW
Ar-Lein
Online

Taliadau Gwledig Cymru
Rural Payments Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

# Canllaw i Gwsmeriaid Pysgodfeydd ar Gofrestru Ar-lein ar gyfer Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop (EMFF) 2014 – 2020



**Cynnwys:** **Tudalen:**


**Cofrestru Cwsmeriaid** 3

- Cyflwyniad 3
- Porth y Llywodraeth 3
- Mewngofnodi i fynd ar RPW Ar-lein 3

**Dechrau'r Ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid** 4

**Llenwi'r Ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid** 6

**Dewis eich math o gyfrif** 8

- Cyfrif Cwsmer 8

**Llenwi'r Ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid – Cwsmeriaid EMFF sydd am wneud cais am grantiau neu sydd am hawlio** 9

- Manylion Cyffredinol 9
- Manylion Gohebu 12
- Prif Gyswllt 16
- Unigolion Eraill 23

**Cyflwyno** 25

- Datganiad ac Ymrwymiadau 27
- Cyflwyno 27
- Cadarnhau Cyflwyno'r Cais 28

**Tudalen Hafan RPW Ar-lein - Cwsmeriaid** 29

**Mwy o Arweiniad a Help** 31


Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cymru

©Hawlfraint y Goron 2018

# Cofrestru Cwsmeriaid

## Cyflwyniad

Ar ôl cofrestru ar Borth y Llywodraeth, bydd cwsmeriaid yn gallu cofrestru am Gyfeirnod Cwsmer (CRN).

Mae Taliadau Gwledig Cymru (RPW) Ar-lein yn ffordd gyflym a hwylus o gysylltu ag RPW.

Ar ôl cofrestru gydag RPW, byddwch yn gallu defnyddio'ch cyfrif RPW Ar-lein i:

- lenwi ceisiadau a datgan diddordeb
- cael yr wybodaeth ddiweddaraf trwy neges destun neu e-bost
- gweld ble ydych chi arni gyda'ch holl hawliadau
- holi RPW ac ateb eu cwestiynau, gan gynnwys lanlwytho dogfennau
- diweddaru manylion eich busnes

## Porth y Llywodraeth


Mae Porth y Llywodraeth yn sicrhau bod RPW Ar-lein yn ddiogel ichi ei ddefnyddio. Pan fyddwch yn clicio ar ddolen RPW Ar-lein, byddwch yn mynd yn gyntaf i dudalen mewngofnodi i Borth y Llywodraeth. Efallai bod gennych gyfrif Porth y Llywodraeth eisoes neu fel arall, bydd yn rhaid ichi greu un. Bydd yn rhaid ichi logio i mewn i Borth y Llywodraeth i gael mynd ar RPW ar-lein. Darllenwch y bennod berthnasol yng nghanllaw Porth y Llywodraeth ar wefan RPW Ar-lein www.llyw.cymru/rpwarlein os ydych am greu cyfrif Porth y Llywodraeth neu logio i mewn arno.

## Mewngofnodi i RPW Ar-lein

Cliciwch www.llyw.cymru/rpwarlein  i fynd i'r dudalen mewngofnodi (logio i mewn).

Ar dudalennau Taliadau Gwledig Cymru Ar-lein Llywodraeth Cymru, fe welwch yr wybodaeth ddiweddaraf a chanllaw i ddefnyddwyr. I ddefnyddio RPW Ar-lein, mae'n bosibl y bydd angen ichi gael system weithredu neu borwr cryfach. Gofalwch eich bod yn bodloni'r amodau ar gyfer defnyddio RPW Ar-lein.  I'w gweld, cliciwch ar Gofynion RPW Ar-lein ar ochr dde'r dudalen. Os oes gennych unrhyw gwestiynau, cysylltwch â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid - mae'r manylion cysylltu yn yr adran Mwy o Arweiniad a Help yn y canllaw hwn.

I weld eich cyfrif, cliciwch ar **Access RPW Online:**




## Dechrau'r Ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid

Cyn ichi ddechrau Cofrestru fel Cwsmer, byddwn yn gofyn ichi ddarllen a derbyn Telerau ac Amodau RPW Ar-lein. Cliciwch ar y ddolen i ddarllen y Telerau a'r Amodau. Rhaid ichi dicio'r blwch i gadarnhau'ch bod yn derbyn y Telerau a'r Amodau cyn cael bwrw ymlaen.





Er mwyn cael mynd i RPW Ar-lein, rhaid ichi gofrestru am CRN trwy glicio ar y botwm "Cofrestru" isod.




Bydd hyn yn lansio'r sgrin Dechrau'r Ffurflen Gofrestru. Bydd eich CRN dros dro i'w weld ar dop y dudalen ar y bar llwyd. Mae'n gyfeirnod unigryw sy'n dechrau â'r llythyren 'A' gyda 7 digid yn dilyn. Cofiwch, ni fyddwn yn gallu cadarnhau'r CRN nes eich bod yn cyflwyno'r ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid a bod RPW wedi cynnal yr holl archwiliadau. Byddwn yn rhoi gwybod ichi trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein pan fydd hyn wedi'i wneud.





Cliciwch "Dechrau" i fynd yn eich blaen.
Bydd y dudalen nesaf yn rhoi negeseuon pwysig ichi cyn ichi fwrw ymlaen i gofrestru. Nodwch fel cwsmer EMFF na fydd pob un o'r rhain yn berthnasol ichi. Bydd yr adran llenwi'r ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid yn y canllaw hwn yn esbonio sut i fynd i rannau gwahanol y ffurflen.



## Llenwi'r Ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid

Bydd y ddewislen ar ochr chwith y sgrin yn gadael ichi:

- weld eich CRN. Bydd angen hwn arnoch chi pan fyddwch chi'n cysylltu â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid am help i lenwi'r ffurflen. Fe welwch y manylion cysylltu yn adran Mwy o Arweiniad a Help y canllaw hwn
- clicio ar y ddolen "help" fydd yn mynd â chi i ganllaw RPW Ar-lein
- mynd o un rhan o'r ffurflen i'r llall trwy glicio ar yr un rydych chi am ei llenwi
- bydd tic gwyrdd yn dangos bod yr adran wedi'i llenwi
- bydd croes goch yn dangos naill ai nad ydych wedi gorffen llenwi'r adran neu fod camgymeriad yn yr wybodaeth rydych wedi'i rhoi
- newidiwch i'r ffurflen Saesneg trwy glicio ar Saesneg.




Fe welwch y symbol isod wrth rai o'r cwestiynau ar y ffurflen. Trwy glicio arni, fe gewch gyngor ar sut i ateb y cwestiwn.



Bydd * wrth bob cwestiwn ar y ffurflen y mae'n rhaid ichi ei ateb. Fyddwch chi ddim yn cael cyflwyno'r ffurflen nes eich bod wedi ateb pob un.

*Rhaid ateb cwestiynau wedi'u marcio â* *

Ar waelod ac ochr dde ucha'r dudalen, fe welwch y botymau isod. Pwyswch ar y botymau Nesaf ac Yn ôl i gael mynd ymlaen ac yn ôl ar y ffurflen. Bydd o botwm Safio yn cadw'r holl wybodaeth rydych wedi'i rhoi hyd yma.



Mae'r botwm Gadael ar ochr chwith isa'r dudalen yn mynd â chi i'r sgrin Parhau â'r Ffurflen Gofrestru. Bydd yr holl wybodaeth rydych wedi'i chofnodi yn cael ei harbed yn awtomatig, hyd yn oed os nad ydych wedi clicio ar y botwm Safio.




Gallwch ddewis bwrw ymlaen i lenwi'r ffurflen Gofrestru trwy glicio ar "Parhau" neu gallwch glicio "Allgofnodi" i adael y ffurflen. Trwy glicio "Yn ôl", byddwch yn mynd i'r sgrin Agor Cyfri'r Cwsmer neu Gofrestru'r Cwsmer.





Bydd y ffurflen yn safio'r holl wybodaeth sydd wedi'i chofnodi, felly os byddwch yn cau'r porwr trwy ddamwain wrth lenwi'r ffurflen Gofrestru, ni fydd angen ichi ailfwydo'r wybodaeth pan fyddwch yn mewngofnodi y tro nesaf.

Cofiwch, chewch chi ddim mynd i RPW Ar-lein tan ichi gyflwyno ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid.

## Dewis eich math o gyfrif


Bydd y cwestiwn cyntaf yn adran Manylion Cyffredinol y ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid yn gofyn ichi ddewis pa fath o gyfrif sydd ei angen arnoch. Fel cwsmer EMFF dylech chi ddewis ‘Cwsmer’.

Caiff eich gwybodaeth ei chadw a’i rheoli yn unol â hysbysiad preifatrwydd EMFF.




## Cyfri'r Cwsmer

Ar ôl dewis Cwsmer, bydd angen i chi roi’r rheswm dros gael cyfrif cwsmer. Fel cwsmer EMFF, dylech ddewis ‘Rwy’n bwriadu gwneud cais am grantiau neu hawlio’.



## Llenwi'r Ffurflen Cofrestru Cwsmer – Cwsmeriaid Pysgodfeydd


Gan eich bod bellach wedi cadarnhau'ch bod yn Gwsmer a'r rheswm pam yr hoffech gael cyfrif RPW Ar-lein, bydd angen ichi nawr ateb cyfres o gwestiynau cyn cyflwyno'ch ffurflen gofrestru.

## Manylion Cyffredinol


**Beth yw eich math o gwsmer?**

Dewiswch yr eitem sy'n disgrifio'ch prif waith orau.


Dewiswch Grŵp o Fusnesau os ydych yn bwriadu Datgan Diddordeb mewn grant sy'n caniatáu ceisiadau gan gwsmeriaid sy'n dod ynghyd i ffurfio grŵp. Fel cwsmer EMFF dylech ddewis 'Unigolyn' neu 'Math arall o fusnes'.




**Beth yw eich statws busnes/cyfreithiol?**
Dewiswch yr opsiwn sy debycaf i'ch prif statws cyfreithiol. Dylai pysgotwyr ddewis ‘Partneriaeth’, ‘Unigolyn Preifat’, ‘Cwmni Cofrestredig’ neu ‘Unig Fasnachwr’.





**Dyddiad y Ffurfiwyd y Busnes**
Cofnodwch y dyddiad pryd cafodd eich busnes ei ffurfio trwy deipio'r dyddiad â'r fformat dd/mm/bbbb neu drwy glicio ar y calendr. Os nad ydych yn fusnes, dylech chi roi’r dyddiad y gwnaethoch chi ddechrau pysgota’n fasnachol. Ni chaiff y dyddiad fod yn y dyfodol.



**A gafodd y busnes hwn ei sefydlu trwy rannu busnes sy'n bod eisoes?**
Os ydy hwn yn fusnes newydd nad ydych wedi cael CRN ar ei gyfer eto, a gafodd ei ffurfio trwy hollti busnes? Os nad ydych yn cofrestru fel busnes dylech chi ateb 'Naddo'.




**Cyfeirnod y Cwmni a Chyfeirnod yr Elusen**
Os mai Cwmni Cofrestredig yw'ch statws busnes/cyfreithiol, yna rhowch y cyfeirnod perthnasol inni. Nid oes angen i chi roi rhif cofrestru elusen.





Cliciwch ar "Nesaf" i fynd i adran Manylion Gohebu'r ffurflen. Neu dewiswch "Manylion Cofrestru" ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin.


## Manylion Gohebu

Defnyddir yr wybodaeth yn yr adran hon i'ch adnabod chi neu eich busnes.


**Teitl Masnachu / Busnes / Enw**
Dyma'r enw fydd yn ymddangos ar bob gohebiaeth.





**Cod Post a Chyfeiriad Gohebu**
Dyma'r cyfeiriad rydych am i bob gohebiaeth gael ei anfon ato. Os byddwch yn nodi'ch cod post a chlicio ar "Chwilio am Gyfeiriad", gallwch ddewis eich cyfeiriad o'r rhestr. Os nad ydych yn gallu gweld eich cyfeiriad, gallwch ei deipio.




**Rhif Ffôn**
Nodwch rif ffôn y prif gyfeiriad gohebu




**Dewis Iaith**
Nodwch ym mha iaith yr hoffech inni ohebu â chi.




**Dull a ffefrir ar gyfer hysbysu**
Gallwch ddewis sut mae RPW Ar-lein yn cysylltu â chi i roi gwybod ichi bod dogfen/llythyr newydd wedi'i ychwanegu at eich cyfrif.





Gan ddibynnu ar ba ddull hysbysu y byddwch yn ei ddewis, gofynnir ichi roi cyfeiriad e-bost neu rif ffôn symudol neu'r ddau. Byddwn yn eu defnyddio i roi gwybod ichi bod dogfen/llythyr newydd wedi cyrraedd ichi ei weld ar eich cyfrif RPW Ar-lein.

**A yw cyfeiriad eich safle yr un â'ch cyfeiriad gohebu?**
Dyma’r cyfeiriad lle y mae prif weithgarwch y busnes yn digwydd. Os nad ydych yn fusnes, dylech chi roi lleoliad eich cwch/cychod pysgota neu eich cyfeiriad gohebu. Os "Nac ydy" yw'ch ateb, nodwch eich cyfeiriad neu chwiliwch amdano gan ddefnyddio'ch cod post.




**A yw eich cyfeiriad masnachu yr un â'ch cyfeiriad  gohebu?**
Dyma'r cyfeiriad sydd ar eich cyfrifon busnes. Unwaith eto, os nad ydych yn fusnes, dylech chi roi lleoliad eich cwch/cychod pysgota neu eich cyfeiriad gohebu Os "Nac ydy" yw'ch ateb, nodwch eich cyfeiriad neu chwiliwch amdano gan ddefnyddio'ch cod post.





Dewiswch "Nesaf" i fynd i adran Prif Gyswllt y ffurflen. Neu dewiswch "Prif Gyswllt" ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin.


## Prif Gyswllt

Y prif gyswllt yw'r person y dylwn siarad ag e/hi os oes ymholiadau.


**Enw Cyntaf / Enw(au) Canol / Enw Olaf**
Rhowch enw llawn y prif gyswllt.





**Ble mae'r unigolyn yn byw?**
Os ydy'r prif gyswllt yn byw yn un o'r cyfeiriadau rydych eisoes wedi'u rhoi inni fel Cyfeiriad Gohebu, Cyfeiriad Adeilad neu Gyfeiriad Masnachu, dewiswch y blwch priodol. Os yw'n byw rywle arall, dewiswch y blwch "Arall". Nodwch y cyfeiriad neu chwiliwch amdano gan ddefnyddio'ch cod post..





**Rôl yn y Busnes**
Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio rôl yr unigolyn yn y busnes orau. Fel cwsmer EMFF dylech ddewis ‘Gweithiwr Cyflog’, ‘Unigolyn’, ‘Partner’ neu ‘Unig Fasnachwr’.





**Dyddiad Geni**
Nodwch ddyddiad geni'r prif gyswllt gan ddefnyddio'r fformat dd/mm/bbbb. Neu gliciwch ar y calendr.




**Rhif Yswiriant Gwladol**
Nodwch rif Yswiriant Gwladol y prif gyswllt. Nid yw hwn yn gwestiwn gorfodol.





**Rhif Ffôn / Rhif Ffôn Symudol / Cyfeiriad E-bost**
Os ydy'r rhain fel y rhai a nodoch chi yn adran Manylion Gohebu'r ffurflen, does dim angen ichi eu nodi nhw yn y fan hon.





**Buddiannau Busnes Eraill**
Os oes gan y prif gyswllt fuddiannau mewn busnes arall sydd wedi'i gofrestru gydag

unrhyw un o Asiantaethau Talu'r DU, datganwch nhw trwy glicio'r botwm "Ychwanegu Buddiannau Busnes Eraill". Os nad oes ganddo fuddiannau mewn busnesau eraill, ewch yn syth i Unigolion Eraill.
Bydd RPW yn archwilio'r wybodaeth y byddwch yn ei darparu er mwyn sicrhau bod y busnes y mae gan y prif gyswllt fudd ynddo yn wahanol i'r busnes rydych yn ei gofrestru.





## Asiantaeth Dalu


Trwy glicio ar y botwm "Buddiannau Busnes Eraill", byddwch yn mynd i'r sgrin Prif Gyswllt - Buddiannau Busnes Eraill. Yn gyntaf, bydd angen ichi gadarnhau â pha un o'r pedair Asiantaeth Dalu y mae'r busnes wedi'i gofrestru.



**Cyfeirnod**
Os ydych chi'n gwybod beth yw'ch cyfeirnod gyda'r Asiantaeth Dalu arall, nodwch e. Efallai ei enw yw'r Cyfeirnod Cwsmer (CRN), Rhif Adnabod y Busnes (Business ID), Rhif Adnabod Busnes Unigol (SBI) neu Gyfeirnod Busnes (BRN).





**Teitl masnachu**
Bydd yn rhaid ichi gadarnhau Teitl Masnachu'ch busnes arall.




## Cod Post / Cyfeiriad Gohebu

Gallwch ddefnyddio'r cod post i chwilio am gyfeiriad gohebu'r busnes arall a'i nodi.





## Rôl

Dewiswch yr opsiwn sy'n disgrifio rôl yr unigolyn yn y busnes orau.




Os nad ydych chi am safio budd y Prif Gyswllt mewn busnes arall, cliciwch y botwm "Canslo". Gallwch safio'r wybodaeth trwy glicio ar "Safio". Gallwch safio'r wybodaeth a mynd yn ôl i adran Prif Gyswllt y ffurflen trwy glicio ar "Cadw a Dychwelyd".

Caiff cofnod o'r budd yn y busnes arall ei ddangos ar sgrin y Prif Gyswllt. Gallwch ychwanegu buddiannau mewn busnesau eraill o dan enw'r Prif Gyswllt trwy glicio'r botwm "Ychwanegu Buddiannau Busnes Eraill". Gallwch newid gwybodaeth am y busnes arall trwy ddewis "Addasu" neu gallwch ei dileu trwy ddewis "Dileu".




Dewiswch "Nesaf" i fynd i adran  Unigolion Eraill y ffurflen. Neu dewiswch "Unigolion Eraill" ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin.


## Unigolion Eraill

Yn yr adran Unigolion Eraill, gallwch ychwanegu unigolion sydd â rheolaeth sylweddol dros y busnes neu unigolion rydych yn gweithio mewn partneriaeth gyda nhw. Ni fydd RPW ond yn cysylltu ond ag unigolion a restrir yma mewn cysylltiad â phrosesau arferol y busnes e.e. newid manylion y busnes. Os nad ydych chi am ychwanegu unrhyw unigolion eraill, ewch yn syth i Cyflwyno.

**Ychwanegu unigolyn**
I ychwanegu unigolyn, cliciwch ar y botwm "Ychwanegu Unigolyn".





**Unigolion Eraill - Manylion Unigolion**
Yma, bydd angen ichi nodi'r un manylion ag y gwnaethoch chi ar gyfer y Prif Gyswllt. Darllenwch yr adran Prif Gyswllt am help ynghylch sut i nodi'r manylion. Gallwch ychwanegu buddiannau busnes eraill ar gyfer yr unigolyn hefyd.




Os nad ydych chi am safio'r unigolyn, gallwch glicio'r botwm "Canslo". Gallwch safio'r wybodaeth trwy glicio ar "Safio". Gallwch safio'r wybodaeth a mynd yn ôl i adran Unigolion Eraill y ffurflen trwy glicio ar "Cadw a Dychwelyd". Os hoffech ychwanegu Unigolyn Arall, cliciwch ar ‘Safio ac Ychwanegu un Arall’.

Caiff cofnod o'r unigolyn a ychwanegwyd ei ddangos. Gallwch ychwanegu nifer o unigolion trwy glicio ar y botwm "Ychwanegu Unigolyn". Gallwch newid manylion unigolion eraill trwy ddewis "Addasu" neu gallwch eu dileu trwy ddewis "Dileu".




Dewiswch "Nesaf" i fynd i adran Cyflwyno'r ffurflen. Neu dewiswch "Cyflwyno" ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin.

Darllenwch yr adran Cyflwyno am ragor o wybodaeth.

## Cyflwyno

Cyn cyflwyno'ch ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid, cewch gyfle i weld yr holl wybodaeth rydych wedi'i nodi. Bydd y crynodeb yn dangos unrhyw gamgymeriadau sydd ar y ffurflen. Bydd yn rhaid ichi gywiro'r camgymeriadau cyn cyflwyno'r ffurflen.


Sgroliwch i lawr y dudalen i weld y crynodeb.





Dewiswch "Yn ôl" i fynd i adrannau blaenorol y ffurflen os ydych am wneud newidiadau, neu dewiswch yr adran berthnasol ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin.

Pan fyddwch chi'n hapus bod yr wybodaeth ar y ffurflen yn gywir, gallwch ddewis "Nesaf" i fynd i adran Datganiadau ac Ymrwymiadau'r ffurflen. Neu dewiswch "Datganiadau ac Ymrwymiadau" ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin.

Os bydd y system wedi cael hyd i gamgymeriadau, fe welwch y sgrin ganlynol:




Gallwch sgrolio i lawr i weld y camgymeriadau; byddan nhw wedi'u lliwio'n goch.




Dewiswch "Yn ôl" i fynd i adrannau'r ffurflen lle mae yna gamgymeriadau neu dewiswch yr adran berthnasol ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin (bydd croes goch yn hytrach na thic gwyrdd wrth yr adrannau sydd â chamgymeriadau).

Pan fydd yr holl gamgymeriadau wedi'u cywiro a'ch bod yn hapus bod yr wybodaeth ar y ffurflen yn gywir, gallwch ddewis "Nesaf" i fynd i adran Datganiadau ac Ymrwymiadau'r ffurflen. Neu dewiswch "Datganiadau ac Ymrwymiadau" ar y ddewislen ar ochr chwith y sgrin.


## Datganiadau ac Ymrwymiadau

Rhaid ichi gytuno i'r datganiadau a'r ymrwymiadau trwy glicio yn y blwch cyn cael cyflwyno'r ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid. Ni fydd modd clicio ar y botwm Nesaf nes eich bod yn ticio'r blwch.





## Cyflwyno

Os ydych chi'n fodlon fod yr wybodaeth ar eich ffurflen yn gywir, cliciwch y botwm "Cyflwyno". Unwaith y byddwch wedi cyflwyno'ch ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid, ni fyddwch yn cael gwneud rhagor o newidiadau iddi. Bydd neges â chopi o'r ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid rydych wedi'i chyflwyno ar gael ar dudalen eich Negeseuon ar-lein cyn pen un diwrnod gwaith.



## Cadarnhad eich bod wedi cyflwyno ffurflen


Bydd sgrin Cadarnhau Cyflwyno'r Cais yn rhoi ychydig o wybodaeth am eich cyflwyniad, gan gynnwys pwy sydd wedi cyflwyno'r ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid a phryd. Gan eich bod yn bwriadu hawlio, mae'n bwysig eich bod yn llenwi Ffurflen Manylion Banc – mae'r ddolen isod. Nid oes modd Cofrestru Cwsmeriaid yn llawn hyd nes ein bod yn cael eich manylion banc.




Nid oes angen ichi gyflwyno unrhyw ddogfennau ar-lein i gefnogi'ch ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid; os hoffech brintio'r sgrin Cadarnhau Cyflwyno'r Cais, cliciwch ar y botwm "Printio'r Sgrin hon".  Fel arall, cliciwch ar "Gadael". Byddwch wedyn yn mynd i dudalen hafan RPW Ar-lein.

## Tudalen Hafan RPW Ar-lein - Cwsmeriaid

Dyma'r dudalen gyntaf welwch chi pan fyddwch chi'n mynd i'ch cyfrif RPW Ar-lein. Cofiwch, fel cwsmer dros dro, ni chaiff unrhyw gais neu Ddatganiad o Ddiddordeb y byddwch yn ei gyflwyno yn cael ei brosesu'n llawn tan ichi glywed gan RPW ei fod wedi archwilio'ch ffurflen Cofrestru Cwsmeriaid.




## Bar Dewislenni

Ar hyd y bar dewislenni gwyrdd ar dop y sgrin, fe welwch yr opsiynau canlynol:

<u>Fy Manylion</u>

Dewiswch yr opsiwn hwn i weld neu newid eich manylion. Gall hynny gynnwys ychwanegu unigolion, newid manylion cysylltu ac ychwanegu'ch buddiannau busnes. Dyma ble welwch chi fanylion eich hawliau a pha rai sydd ar gael a ddim ar gael ichi eu defnyddio i gael taliad. Gallwch weld eich manylion bancio a manylion y taliadau sydd wedi'u gwneud. I newid unrhyw wybodaeth bancio, dylech lenwi'r manylion ar-lein, eu harbed a'u hatodi fel neges i'ch cyfrif. Fe welwch ei manylion cysylltu yn adran <u>Mwy o Arweiniad a Help</u> y canllaw hwn. Gallwch newid eich Dewisiadau Ar-lein neu ychwanegu neu newid eich asiantwyr, cynghorwyr neu gynrychiolwyr undebau llafur. Byddwn yn rhoi gwybod ichi trwy'ch Cyfrif RPW Ar-lein pan fyddwn wedi prosesu'ch cais i Gofrestru fel Cwsmer.

<u>Tir</u>

Dyma ble cewch chi weld a chyflwyno'ch ffurflen Rheoli fy Nhir i reoli manylion eich CPH (rhif daliad) ac ychwanegu manylion newydd. Fe welwch wybodaeth hefyd ar eich map SAF a'r Map Rhyngweithiol.

<u>Gohebiaeth</u>

Dyma ble mae holl ddogfennau Taliadau Gwledig Cymru yn cael eu cadw. Byddwch hefyd yn gallu ateb cwestiynau a lanlwytho gwybodaeth ategol o'r dudalen Negeseuon. Bydd y rhif wrth ochr dde'r teitl Negeseuon yn dangos faint o negeseuon sydd gennych heb eu darllen.
<u>Ffurflenni</u>

Dylech glicio ar yr opsiwn hwn i wneud cais neu hawliad newydd neu i weld beth sy'n digwydd i gais rydych wedi'i wneud eisoes.
<u>Contractau a Grantiau Bach</u>

Dyma ble gwelwch chi restr o'ch contractau a'u statws. Gallwch Ddatgan Diddordeb neu weld Datganiadau sydd wedi'u gwneud eisoes. Byddwch hefyd yn gallu lanlwytho dogfennau o'r fan hon i gefnogi'ch hawliadau.

Dyma elfennau pwysig eraill ar dudalen hafan RPW Ar-lein:

**Bar Gwybodaeth**
Mae'r bar Gwybodaeth glas yn dangos y cyhoeddiadau a'r wybodaeth ddiweddaraf.



**Man Negeseuon**
Ar ochr chwith y dudalen hafan, byddwn yn cadw'r ohebiaeth ddiweddaraf rhyngoch chi a'r RPW. Dim ond y negeseuon diweddaraf fydd yn cael eu dangos. I weld eich negeseuon i gyd, ewch i'r tab Negeseuon.





**Dolenni Defnyddiol**
Ar ochr dde'r dudalen hafan, mae rhestr o ddolenni defnyddiol.



**Dechrau Ffurflen**

Fe welwch ddolenni cyflym at rai o'ch ceisiadau a hawliadau ar waelod y dudalen hafan. I weld yr holl geisiadau, ewch i'r dudalen Ffurflenni.




I gael mwy o help ar sut i ddefnyddio'r elfennau hyn, ewch i www.llyw.cymru/rpwarlein

## Mwy o Arweiniad a Help

I gael mwy o help ac i weld fideos arddangos ar-lein, ewch i www.llyw.cymru/rpwarlein.

I siarad â'r Ganolfan Gyswllt i Gwsmeriaid, ffoniwch **0300 062 5004**. Ei horiau agor yw:

**Llun - Iau 8.30am tan 5pm**
**Gwener 8.30am tan 4.30pm.**

Gallwch anfon neges atyn nhw hefyd trwy'ch cyfrif RPW Ar-lein.

Am ragor o wybodaeth am gynlluniau EMFF , ewch i https://llyw.cymru/cronfar-mor-a-physgodfeydd-ewrop

**Defnyddio a hyfforddiant mewn cyfrifiaduron**
Mae'r wefan www.computercourses.wales yn rhestru'r cyfrifiaduron sydd ar gael i'r cyhoedd eu defnyddio yn ogystal â'r cyrsiau hyfforddi sydd ar gael ledled Cymru. Gallwch hefyd ffonio 0845 474 8282. Mae yna nifer fach o gyfrifiaduron ar gael hefyd yn rhai o swyddfeydd Llywodraeth Cymru.

**Band eang**
Mae band eang cyflym wrthi'n cael ei ddarparu ledled Cymru neu gallwch wneud cais am grant i gysylltu â band eang cyflym trwy ffyrdd eraill. Ewch i www.llyw.cymru/bandeang am ragor o wybodaeth neu ffoniwch 0300 025 8887.